Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanharan

**Teras Llwyn Brain**
**Llanharan**
**Pont-y-clun**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF72 9PW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanharan

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanharan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Anenwadol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 162 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 149 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 26 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 37.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 38.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 02/06/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/03/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Llanharan yn hapus yn yr ysgol ac yn mwynhau mynd yno bob dydd. Maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da, ac yn ffyddiog y bydd oedolion bob amser yn eu cynorthwyo'n briodol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n fregus a'r rhai ag anghenion ychwanegol, yn gwneud cynnydd boddhaol yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Lles disgyblion sydd wrth wraidd yr ysgol. Mae staff yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn feddylgar, yn gynhwysol ac yn gefnogol ar gyfer yr holl ddisgyblion a'u teuluoedd. Ceir perthnasoedd cryf ar draws yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd islaw'r lefel ddisgwyliedig, gydag ychydig iawn ohonynt gryn dipyn islaw'r lefel ddisgwyliedig. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn gwneud cynnydd boddhaol yn y rhan fwyaf o agweddau ar ddysgu, gan gynnwys medrau darllen a digidol, a'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso'u dysgu ar draws y cwricwlwm ar yr un lefel â mewn gwersi Saesneg a mathemateg penodol. Nid yw defnydd disgyblion o'r Gymraeg, a'u medrau ysgrifennu mewn Saesneg, wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn i arweinwyr, staff a disgyblion o ran dylunio'u cwricwlwm ysgol i gyd-fynd â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru ac adlewyrchu'r amgylchedd a'r gymuned y maent yn byw ynddi. Mae arweinwyr yn adolygu gwaith yr ysgol yn rheolaidd yn erbyn ei blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, nid yw gweithgarwch monitro arweinwyr bob amser yn amlygu meysydd addysgu a dysgu pwysig sydd angen eu gwella, er enghraifft pa mor effeithiol y mae athrawon yn cynllunio, a sut mae adborth yn helpu disgyblion i wella'u gwaith a gwneud y cynnydd disgwyliedig wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymagweddau cyson a thrylwyr at fonitro sy'n canolbwyntio'n llawn ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu

A2 Sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac adborth disgyblion

A3 Datblygu'r cwricwlwm i sicrhau bod gwybodaeth a medrau yn adeiladu'n raddol o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 6

A4 Gwella safonau ysgrifennu

A5 Gwella medrau llafaredd Cymraeg disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae o leiaf hanner y disgyblion yn dechrau'r ysgol â gwybodaeth a medrau islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Mae medrau iaith mwyafrif y disgyblion yn hynod wan. Dros gyfnod, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd addas mewn mwyafrif o feysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw eu cynnydd mewn meysydd fel ysgrifennu yn Saesneg a llafaredd Cymraeg yn ddigon cryf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd tebyg i'w cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd effeithiol tuag at eu nodau a'u targedau unigol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau yn y dosbarth meithrin gyda medrau cyfathrebu gwan. Mae llawer ohonynt yn dysgu gwrando ar oedolion yn gyflym ac yn rhoi atebion byr i gwestiynau am eu bywydau bob dydd. Wrth iddynt symud ymlaen i Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau mynegi eu syniadau'n glir ac yn ystyriol. Mae llawer ohonynt yn cydweithio'n dda ac yn sgwrsio'n bwrpasol mewn grwpiau bach. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus i siarad ag oedolion, ac â'i gilydd. Maent yn rhannu syniadau mewn manylder defnyddiol, ac yn gwrando ar ei gilydd yn dda.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau darllen. Mae'r ysgol yn dechrau meithrin diwylliant darllen ac mae disgyblion yn mwynhau'r ardaloedd darllen sydd wedi'u hadnewyddu yn yr ystafelloedd dosbarth. Mae ffocws yr ysgol dros y 12 mis diwethaf ar wella darllen yn dechrau cael effaith gadarnhaol, ac mae llawer o ddisgyblion yn dechrau gwneud cynnydd priodol mewn gwella eu medrau darllen a deall o fannau cychwyn isel. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn nodi ac yn defnyddio cyfuniadau ffoneg i ddarllen geiriau syml, er enghraifft 'ar' i greu geiriau, fel 'farm' a 'car'. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac yn dewis eu llyfrau eu hunain i'w darllen yn annibynnol.

Ar draws yr ysgol, mae cynnydd disgyblion o ran datblygu eu medrau ysgrifennu yn rhy araf. Mae safonau ysgrifennu disgyblion yn peri pryder ac mae hwn yn faes sydd angen ei wella. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin a derbyn yn dechrau o waelodlin isel. Dros gyfnod, maent yn dechrau deall bod eu hysgrifennu'n gallu cyfleu ystyr ac yn dechrau defnyddio technegau ysgrifennu newydd i gyfathrebu'n syml. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn adeiladu ar y medrau hyn yn araf. Erbyn Blwyddyn 2, er bod llawer o ddisgyblion yn dechrau cyfathrebu'n ystyrlon yn ysgrifenedig, yn aml, ni allant sillafu geiriau allweddol cyffredin na gwneud cynigion rhesymol. Mae llawer ohonynt, hyd yn oed y rhai mwy abl, yn cymysgu priflythrennau a llythrennau bach o fewn geiriau, ac ar draws eu hysgrifennu. Erbyn diwedd Blynyddoedd 5 a 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i strwythuro gwahanol fathau o ysgrifennu, er enghraifft cofnod dyddiadur, cofiant neu adroddiad papur newydd. Mae lleiafrif ohonynt yn defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa ddifyr. Mae disgyblion mwy abl yn ysgrifennu'n dda at ystod addas o ddibenion, er enghraifft dewis geiriau'n ofalus i esbonio, disgrifio neu berswadio. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 nad ydynt yn ysgrifennu'n dda ac yn estynedig ar draws ystod o ddibenion, neu'n ddigon manwl. Mae llawer ohonynt yn

gwneud camgymeriadau mynych â sillafu, atalnodi a gramadeg, nad yw mwyafrif o athrawon yn eu nodi'n ddigon da. Mae hyn yn arafu cynnydd disgyblion wrth ddatblygu eu hysgrifennu.

Yn y dosbarthiadau iau, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n datblygu eu geirfa Gymraeg yn briodol. Yn y dosbarth derbyn, mae disgyblion yn ymateb i gyfarchion, er enghraifft 'bore da' a 'prynhawn da'. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ailadrodd ychydig o batrymau brawddeg, fel 'sut beth yw'r tywydd?' ('what is the weather?'). O Flynyddoedd 3 i 6, mae llawer o ddisgyblion yn deall yr ymadroddion a ddefnyddir ym mhob dosbarth, fel brawddegau'r wythnos, er enghraifft 'beth wyt ti'n ei wisgo?' ('what are you wearing'). Mae llawer ohonynt yn ateb y cwestiynau hyn yn briodol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae ymatebion a geirfa disgyblion yn gyfyngedig.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau mathemategol. Yn y dosbarth meithrin, mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau dysgu cyfrif trwy gyffwrdd yn briodol gywir, er enghraifft cyfrif anifeiliaid yn yr hambwrdd tywod. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gyfrif ymlaen fesul 2 a 5. Maent yn nodi patrymau mewn setiau o rifau yn dda. Mae llawer ohonynt yn trosglwyddo eu medrau rhif i'w gweithgareddau chwarae yn annibynnol, er enghraifft defnyddio eu medrau dyblu wrth chwarae yn yr awyr agored. Ym Mlwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth addas o'r berthynas rhwng ffracsiynau a chanrannau, ac erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemateg i amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol ac yn esbonio eu meddwl yn glir.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu hyder â medrau digidol yn gyflym. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i chwarae gemau i gefnogi eu dysgu a datblygu medrau datrys problemau syml. Erbyn Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau'n hyderus i ddatblygu cyflwyniadau sy'n arddangos eu gwaith yn greadigol. Maent yn dechrau creu cronfeydd data syml, fel y rhai sy'n cynnwys ffeithiau ar wahanol anifeiliaid. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o apiau a rhaglenni i gyflwyno'u dysgu. Mae gan leiafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth gyfyngedig o sut i ddefnyddio taenlenni. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau addas, ond nid yw'r rhain bob amser yn adeiladu'n ddigon graddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol effeithiol. Mae disgyblion iau yn dangos eu creadigwydd yn dda i ymateb i symbyliadau, fel llyfrau y maent wedi eu darllen. Maent yn mynegi eu syniadau am sut gallai golygfa o ffenestr ar draws dinas edrych yn ddychmygus, gan ddefnyddio dyfrlliwiau a thrwy greu modelau manwl.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol, ac yn mwynhau mynychu. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan amrywiaeth o strategaethau, er enghraifft blychau gofidiau ystafell ddosbarth. Maent yn gwybod beth i'w wneud os oes angen iddynt siarad â rhywun, ac yn hyderus y bydd oedolion yn gwrando. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn rheoli eu hemosiynau'n llwyddiannus, yn gwybod sut i ddefnyddio gofodau diogel a phwysigrwydd treulio

amser i ffwrdd oddi wrth bobl eraill, pan fydd angen. Mae bron pob un o'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn mwynhau rhannu eu gwaith a'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Maent yn gwrtais a chyfeillgar, ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymdeithasu'n dda yn ystod amseroedd chwarae ac amser cinio, gan ddangos parch ar y ddwy ochr at oedolion a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau. Maent yn deall gwobrau a chosbau'r ysgol yn dda ac yn awyddus i ennill 'amser aur'.

Mae llawer o ddisgyblion yn dod â ffrwythau i'r ysgol, ac yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a hydradu. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o fuddion ymarfer corff ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff fel gymnasteg a ioga. Maent yn deall sut i aros yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn gwybod i beidio ag agor negeseuon e-bost amheus a rhoi gwybod i oedolyn ar unwaith pan fydd ganddynt bryderon. Maent yn deall pwysigrwydd peidio â siarad â dieithriaid ar-lein na rhannu gwybodaeth bersonol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr medrus. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau athrawon, yn canolbwyntio, yn ymgysylltu'n frwdfrydig ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu gwaith. Maent yn parhau i ganolbwyntio ac yn bwrpasol wrth wynebu anawsterau, ac yn chwilio am atebion pan fydd y dull cyntaf yn aflwyddiannus. Er enghraifft, wrth adeiladu tyrau i wrthsefyll effeithiau daeargryn, maent yn rhoi cynnig ar dechnegau amrywiol nes byddant yn llwyddiannus. O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwydnwch yn eu gwaith, ac yn dyfalbarhau am gyfnod cynaledig, yn enwedig pan fyddant yn wynebu her. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae ychydig o ddisgyblion yn ei chael yn anodd canolbwyntio am gyfnodau amser hirach.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgyblion yn dangos parch am gyfraniadau disgyblion eraill. Er enghraifft, ar ddiwedd gwers wrth werthuso'r portreadau Tuduraidd y maent wedi'u creu, maent yn gwneud sylwadau cadarnhaol am waith ei gilydd, ac yn cyfeirio at waith arlunwyr gwreiddiol yn eu hadborth. Pan roddir cyfle iddynt, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar athrawon. Mae disgyblion hŷn yn cynorthwyo disgyblion eraill yn y dosbarth yn dda. Er enghraifft, maent yn modelu eu meddwl i'w cyfoedion yn dda ac mae ychydig ohonynt yn helpu disgyblion eraill i archwilio'u camdybiaethau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig pan roddir cyfleoedd iddynt benderfynu sut i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, pan greodd disgyblion eu cyfraith eu hunain i'w chyflwyno i'r Senedd, dewison nhw greu caneuon a phosteri i gyflwyno eu syniadau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dechrau dod yn ddinasyddion sy'n fwy egwyddorol a gwybodus ac yn deall pwysigrwydd rhoi cymorth i'r rhai mewn angen, er enghraifft trwy gyfrannu at ddioddefwyr daeargryn yn Nhwrci. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dechrau archwilio materion ynglŷn â rhywedd. Er enghraifft, maent yn deall buddion creu masgot niwtral o ran rhywedd i gydnabod eu dealltwriaeth o amrywiaeth a phobl yn gwneud eu dewisiadau eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar y cyngor ysgol yn deall eu rolau mewn gwella'r ysgol, yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr ac yn cymryd eu rolau o ddifri. Er enghraifft, fe wnaethant helpu datblygu cynllun gweithredu ar gyfer presenoldeb a chyfrannu'n bwrpasol at gynllunio ardal awyr agored. Fe wnaeth disgyblion yn y 'Tîm

Eco' drefnu ac arwain 'siop gyfnewid' gan ddefnyddio talebau i ailgylchu dillad a chodi arian i brynu planhigion ar gyfer tir yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cwmpasu ystod eang o destunau ac yn rhoi amrywiaeth o brofiadau dysgu difyr i ddisgyblion ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4 a Blwyddyn 5, mae disgyblion yn gwneud animeiddiadau stop-symud addysgiadol i'w helpu i ddysgu am losgfynyddoedd. Mae'r rhain yn helpu datblygu medrau gwaith tîm a medrau creadigol disgyblion yn dda. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu profiadau ehangach diddorol ar gyfer disgyblion, fel addysgu'r holl ddisgyblion o Flwyddyn 3 ymlaen i chwarae'r iwcalili. Mae hyn yn helpu cefnogi ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn trefnu dysgu o dan themâu penodol bob hanner tymor, sy'n ymdrin â thestunau fel y gofod a'r corff dynol. Yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, mae athrawon yn dechrau datblygu profiadau dysgu mwy teilwredig sy'n cael eu llywio gan werthoedd yr ysgol, ei lleoliad a'i chymuned. Er enghraifft, mae testun 'Llanharan a glo' yr ysgol yn helpu disgyblion i ddeall hanes a daearyddiaeth yr ardal leol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r cwricwlwm yn adeiladu'n ddigon da ar wybodaeth, medrau na phrofiadau disgyblion wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. O ganlyniad, nid yw medrau disgyblion bob amser yn datblygu'n ddigon systematig na graddol.

Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn dechrau cael cyfle i roi mewnbwn pwrpasol i sut maent yn cyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn dewis p'un a ydynt am ysgrifennu caneuon i gyflwyno'u syniadau ar gyfer cyfraith newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddylanwadu'n ystyrlon ar yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae lleiafrif o ddisgyblion iau yn elwa ar ystod o brofiadau dysgu wedi'u seilio ar athroniaethau dysgu sylfaen. Maent yn cael cydbwysedd effeithiol rhwng dysgu wedi'i arwain gan oedolion a dysgu wedi'i arwain gan ddisgyblion, dysgu pwrpasol yn yr awyr agored, a chyfleoedd i fod yn greadigol a chyfeirio'u dysgu eu hunain. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1 a 2, mae disgyblion yn dewis sut i gynrychioli eu syniadau am beth allai cymeriad llyfr ei weld wrth edrych allan o ffenestr gan ddefnyddio dyfrlliwiau ac adeiladu modelau manwl. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu annibyniaeth a medrau meddwl disgyblion, ac yn hyrwyddo agwedd gadarnhaol at ddysgu. Fodd bynnag, nid yw'r arferion hyn wedi'u datblygu'n ddigon da yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn. Er enghraifft, nid yw dysgu bob amser wedi'i seilio'n ddigon da ar brofiadau bywyd go iawn disgyblion, ac nid oes digon o gyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored.

Mae'r cwricwlwm yn darparu ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau digidol i ymchwilio a chofnodi ffeithiau ar gyfer testun ar ysglyfaethwyr. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r gweithgareddau hyn yn rhy anghyson ac nid oes digon o achlysuron pan fydd disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig neu'n datblygu eu medrau rhifedd mewn ffyrdd pwrpasol. Yn yr un modd, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg yn rhy anghyson. Mae'r ymadrodd wythnosol ysgol gyfan yn codi proffil yr iaith yn briodol, ac mae pob

dosbarth yn cael sesiwn ddyddiol fer sy'n helpu disgyblion i ymarfer ychydig o batrymau iaith yn briodol. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd ehangach i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg, fel ymestyn y brawddegau y maent yn eu gwybod i gynnwys mwy o fanylion.

Mae athrawon yn cynllunio'n dda i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn archwilio sut beth oedd bod yn yr ysgol yng Nghymru yn ystod Oes Fictoria, ac yn cymharu Caerdydd fodern â Llanharan. Caiff pwysigrwydd cyfraniad i'r byd a chymdeithas fodern pobl o gefndiroedd pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ei weu trwy'r cwricwlwm yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am ffigurau dylanwadol, fel Katherine Johnson, y mathemategydd a wnaeth gyfrifiadau hanfodol ar gyfer NASA, ac yn astudio llyfrau gan yr awdur a'r cyn-fardd plant llawryfog, Malorie Blackman OBE. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall pwysigrwydd gwerthfawrogi pawb yn gyfartal.

Mae gan bob un o'r athrawon berthnasoedd gwaith cryf â disgyblion. Mae hyn yn helpu creu awyrgylch lle mae disgyblion yn hapus i ofyn cwestiynau neu ofyn am help yn yr ystafell ddosbarth. Mae llawer o athrawon yn rhoi esboniadau clir, yn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain ac yn modelu iaith yn dda. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu geirfa sy'n benodol i bwnc yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn canolbwyntio gormod ar yr hyn y maent eisiau i ddisgyblion ei wneud, ac nid ydynt bob amser yn ddigon clir am yr hyn y maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu. Mae hyn yn golygu nad yw medrau disgyblion bob amser yn cael eu hadeiladu'n raddol, ac nid yw disgyblion bob amser yn gallu gwerthuso'u dysgu eu hunain yn ddigon llwyddiannus.

Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio staff cymorth dysgu yn effeithiol. Mae'r oedolion hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol a pherthnasol at ddysgu'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio dysgu sy'n cefnogi neu'n herio pob un o'r disgyblion yn ddigon da. O ganlyniad, maent yn disgwyl i ychydig o ddisgyblion gwblhau tasgau sydd naill ai'n rhy anodd neu ddim yn ddigon heriol.

Mewn lleiafrif o sesiynau, mae athrawon yn monitro dysgu'r disgyblion wrth i'r wers fynd rhagddi. Maent yn nodi camdybiaethau neu gamgymeriadau ac yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu galluogi i wella'u dysgu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn ddigon cyson, ac felly mae disgyblion yn parhau â chamdybiaethau ac yn ailadrodd yr un camgymeriadau. Mewn llawer o achosion, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon yn ddigon buddiol i alluogi disgyblion i ddeall sut a ble mae angen iddynt wella'u gwaith. Mae athrawon yn dechrau darparu ychydig o gyfleoedd priodol i ddisgyblion werthuso'u dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o hyd o ran datblygu'r strategaethau hyn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Yn Ysgol Gynradd Llanharan, mae staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i les y disgyblion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac anogol lle mae staff a disgyblion yn adnabod ei gilydd yn dda ac yn dangos lefel uchel o barch at ei gilydd. Trwy lawer o raglenni amrywiol, mae staff yn cefnogi lles ac anghenion emosiynol disgyblion yn dda. Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn adnabod disgyblion yn dda ac yn ymateb yn sensitif ac yn effeithiol i'w hanghenion

cymdeithasol ac emosiynol. Mae'r ethos cefnogol hwn yn galluogi disgyblion i ddatblygu agwedd gadarnhaol at eu dysgu, ac yn gryfder yn yr ysgol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder mawr yn yr ysgol. Mae staff yn nodi anghenion unigol disgyblion yn dda iawn yn gynnar. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn ymyrryd yn gyflym ac yn briodol i roi cymorth teilwredig pwrpasol i bob disgybl ag ADY. Mae arlwy cyffredinol yr ysgol yn gynhwysfawr. Er enghraifft, fel rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol, mae staff yn gweithredu rhaglen ar gyfer datblygiad lleferydd ac iaith disgyblion. Mae hyn yn helpu disgyblion i wella'u medrau siarad a chaffael iaith. Mae system olrhain yr ysgol yn hynod effeithiol o ran darganfod p'un a yw rhaglenni cymorth yn effeithiol ai peidio, ac fe gaiff darpariaeth ei theilwra ar ôl hynny i ddiwallu anghenion yr unigolyn yn llwyddiannus iawn. Caiff cynnydd disgyblion mewn darllen ei olrhain yn effeithiol iawn gan y cydlynydd ADY, sy'n golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n dda iawn gyda rhieni trwy sesiynau galw i mewn i gefnogi teuluoedd. Mae cynlluniau ymddygiad unigol yn cryfhau dealltwriaeth yr ysgol o anghenion y plentyn.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am wahanol gredoau a chrefyddau, er enghraifft trwy ymweliadau gan gynrychiolwyr o grŵp eglwys lleol ac ymweliadau â'r mosg lleol. Mae addoli ar y cyd yn galluogi disgyblion i fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am faterion pwysig yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft yn ystod gwasanaethau am Martin Luther King a Betty Campbell.

Ceir trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff bron pob un o'r disgyblion eu hannog i yfed dŵr a bwyta ffrwythau yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda i helpu disgyblion i aros yn ddiogel ar-lein, er enghraifft trwy'r cwricwlwm ysgol a gweithdai gyda swyddog cyswllt yr heddlu.

Trwy grwpiau llais y disgybl, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau a hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg yn arwain 'brawddeg yr wythnos' ac yn cynorthwyo'r disgyblion iau â phatrymau Cymraeg, ac mae arweinwyr digidol yn cynorthwyo plant iau yn yr ysgol â'u medrau digidol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd ysgol ac yn teimlo'n falch o'u hysgol. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, fel clwb ffilm sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan yn y celfyddydau ac adolygu ffilmiau yn feirniadol.

Mae'r ysgol yn dechrau darparu profiadau dysgu i ddisgyblion ddarganfod am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, ac uniaethu â'r ardal leol. Er enghraifft, mae unedau gwaith ar hanes pwll glo Llanharan ac ymchwil i enwau ar y senotaff lleol yn y pentref wedi rhoi cyfle i ddisgyblion ennill dealltwriaeth well o effaith cloddio glo ar yr ardal leol.

Mae diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol, ac mae diogelwch a lles disgyblion yn ganolog iddo. Mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu priodol. Maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os byddant yn pryderu am ddisgybl. Mae llywodraethwyr wedi mynychu hyfforddiant perthnasol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau a phrosesau. Mae gan yr ysgol weithdrefnau da

ar waith i fonitro a gwella presenoldeb. Mae staff yn gweithio'n agos â'r awdurdod lleol i herio a chynorthwyo teuluoedd y mae presenoldeb eu plant yn wael.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae arweinwyr yn Ysgol Gynradd Llanharan wedi creu amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn teimlo synnwyr cryf o berthyn. Maent wedi sefydlu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol yn canolbwyntio ar ddatblygu lles disgyblion. Mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i annog disgyblion i fod yn gyfrifol a pharchus, ac o ganlyniad, mae ymddygiad yn dda, ac mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae perthnasoedd arweinwyr yr ysgol â rhieni yn effeithiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynnal gweithgareddau monitro a gwerthuso rheolaidd, fel teithiau dysgu, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r meysydd ffocws a gwmpaswyd eleni yn cynnwys darllen ac ysgrifennu, gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, a gwella lles disgyblion. Mae'r rhain yn cysylltu â blaenoriaethau gwella'r ysgol yn dda. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau monitro yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella addysgu a sicrhau cynnydd disgyblion ym mhob dosbarth. Er enghraifft, wrth ddatblygu polisi adborth, nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod athrawon yn ei gymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol a'i fod yn golygu bod pob un o'r disgyblion yn deall eu camau nesaf mewn dysgu.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn meddu ar wybodaeth gadarn am yr ysgol, ac maent yn gefnogol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr a staff ac mae hyn yn eu helpu i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd a chael trosolwg o gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn rhoi digon o wybodaeth berthnasol iddynt am gynnydd yr ysgol i lywodraethwyr allu herio a chefnogi gwaith yr ysgol yn effeithiol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol. Mae targedau'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol, yn ogystal â meysydd unigol athrawon i'w gwella. Mae dysgu proffesiynol yn cefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol yn briodol. Mae hyfforddiant staff i wella darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn effeithiol. Mae staff cymorth yn mynychu ystod fuddiol o hyfforddiant ac yn rhannu eu gwybodaeth â chydweithwyr i ledaenu arfer dda. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn ansawdd darpariaeth ADY a chynnydd bron pob disgybl ag ADY. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd dysgu proffesiynol eraill wedi gwella deilliannau i ddisgyblion mor llwyddiannus, er enghraifft o ran cefnogi datblygiad graddol medrau ysgrifennu disgyblion.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â mwyafrif y blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol. Mae wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran gweithredu diwygio ADY. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da iawn tuag at eu nodau dysgu unigol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu gwaith yr ysgol ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Hefyd, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol a'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau o ran cadw disgyblion yn ddiogel, ac wedi sefydlu diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn gwneud trefniadau addas i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol, y grant datblygu disgyblion a chyllid grant arall yn effeithiol, ac yn targedu gwariant yn dda. Er enghraifft, i wella lles disgyblion, buddsoddodd arweinwyr yn llwyddiannus mewn dysgu proffesiynol yn ymwneud â rheoli ymddygiad a strategaethau ar gyfer cynorthwyo'r rhai ag anghenion penodol. O ganlyniad, mae staff yn awr yn delio'n hyderus ag unrhyw broblemau sy'n codi ac mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/06/2023